



YSGOL SYR THOMAS JONES

68401

POLISI TREFNIADAU ASESU A SICRHAU ANSAWDD HAF 2021

Paratowyd gan:	R. Aaron Bayley
Yn berthnasol i:	Holl staff sydd yn ymwneud ag asesu dysgwyr
Cymeradwyd gan:	UDA - CLI -
Cyhoeddwyd i staff:	
Dyddiad Adolygu:	
Fersiwn:	1.0

Polisi Trefniadau Asesu a Sicrhau Ansawdd Haf 2021

1. Cefndir

- 1.1. Yn dilyn penderfyniad penderfyniad polisi gan LIC i ddiddymu trefniadau arholiadau haf 2021 a'r datblygiadau gyda'r pandemig ysgolion a cholegau fydd yn pennu graddau dros dro i ddysgwyr ar gyfer haf 2021. Yn dilyn sefydlu'r Grŵp Ymgynghorol Dylunio a Gweithredu Cenedlaethol mae Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi eu Canllawiau am drefniadau amgen ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch sydd wedi'u cymeradwyo. Mewn cydweithrediad bydd CBAC yn gwirio polisiau a gweithdrefnau ysgolion a cholegau er mwyn sicrhau ansawdd holl brosesau dyfarnu yn haf 2021.

2. Datganiad o fwriad

- 2.1. Diben y polisi hwn yw gwneud y canlynol:

- sicrhau y cynhelir Graddau a Bennir gan Ganolfannau yn deg, yn gyson, heb ragfarn ac yn effeithiol o fewn ac ar draws adrannau a'u bod yn cael eu cynnal drwy gydol y broses
- fel bod y prosesau'n cael eu gweithredu'n effeithiol gyda chanllawiau clir a chefnogaeth i'r staff
- er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff sy'n ymwneud â'r prosesau'n deall ei rôl a'i gyfrifoldebau
- i gefnogi athrawon i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth yn unol â gofynion Cymwysterau Cymru
- i gyflawni safon uchel o sicrhau ansawdd mewnol wrth ddyrannu'r graddau a bennir gan ganolfannau
- i sicrhau bod y ganolfan yn bodloni ei rhwymedigaethau o ran deddfwriaeth cydraddoldeb ac anabledd
- i sicrhau ein bod yn bodloni'r holl ofynion a nodir yn yr Amodau Rheoleiddiol Arbennig, a chyfarwyddiadau'r Cyd-gyngor Cymwysterau a Sefydliadau Dyfarnu ar gyfer cymwysterau Haf 2021.

- 2.2. Cyfrifoldeb pawb sy'n ymwneud â chynhyrchu Graddau a Bennir gan Ganolfannau yw darllen, deall a gweithredu'r polisi.

3. Rolau a chyfrifoldebau

- 3.1. Rôl **Cadeirydd** y Corff Llywodraethu yw sicrhau, gyda'r Pennaeth, bod y polisi'n cael ei ymgynghori arno gyda'r staff ac yn cael ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y corff. Dylai sicrhau drwy'r Pennaeth bod yr holl staff wedi darllen y polisi, eu bod yn ei ddeall a monitro'i weithrediad.
- 3.2. Bydd y **Pennaeth** yn gyfrifol ar y lefel uwch am weithrediad y polisi yn ei gyfarwydd gan sicrhau drwy ei dîm o arweinwyr bod pawb yn deall eu rolau yn glir. Bydd yn sicrhau bod y prosesau sicrhau ansawdd yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac yn sicrhau'r gefnogaeth a'r mynediad i hyfforddiant i staff. Mae'r cyfrifoldeb trosfwaol ganddo ar raddau dros dro y dysgwyr a bydd yn llofnodi'r Datganiad Pennaeth y Ganolfan ar ddiwedd y broses yn yr haf.
- 3.3. Cyfrifoldeb aelodau penodol o'r **Uwch Dîm Arweinyddol** fydd cefnogi staff allweddol drwy'r llinellau rheoli priodol i fod yn gweithredu'r polisi'n gywir, yn deg ac yn dryloyw. Byddant yn cyfathrebu'r wybodaeth yn glir gyda rhanddeiliaid gan gynnwys dysgwyr a rhieni ac yn sicrhau bod pawb yn deall. Gan wneud defnydd o'r adnoddau cenedlaethol byddant yn sicrhau mynediad

gweithredol i hyfforddiant i staff. Byddant yn gyfrifol am weithredu'r systemau sicrhau ansawdd ac am sicrhau cofnodion cyson o'r holl gamau. Nhw fydd yn gyfrifol am sicrhau bod gan bob cyfadrann Gynllun Asesu ar gyfer bob pwnc ac am sicrhau ansawdd prosesau'r cyfadrannau wrth bennu graddau. Byddant yn cydweithio gyda'r **TAE** i safoni a gwirio graddau yn fewnol ac am sicrhau effeithiolrwydd y prosesau cefnogi a dilysu ysgol > ysgol.

- 3.4. Mewn cydweithrediad â'r UDA a'r Swyddog Arholiadau rôl allweddol y **CydADY** fydd sicrhau cydraddoldeb, tegwch a mynediad lawn i'r holl brosesau ar gyfer unrhyw ddysgwyr sydd â'r hawl i drefniadau mynediad arferol.
- 3.5. Yn Ysgol Syr Thomas Jones mae gan aelodau allweddol y **TAE**, sydd â chyfrifoldebau arwain mewn meysydd cwricwlwm sydd â chymwysterau, rôl hanfodol er mwyn sicrhau gweithrediad llyfn y polisi. Nhw fydd â chyfrifoldeb terfynol am gyflwyno unrhyw Gynllun Asesu pynciol terfynol. Byddant yn gweithio'n agos gyda'u timau ac o fewn eu rhwydweithiau pwnc sirol drwy CAMU i gysoni a ffurfioli'r cynlluniau. Byddant yn gyfrifol am storio Cofnodion Penderfyniad Dysgwyr ac am sicrhau diogelwch y dystiolaeth. Mewn cydweithrediad â'u staff byddant yn sicrhau prosesau teg a chyson wrth weithredu asesiadau. Mewn cydweithrediad ag aelodau eraill eu rhwydwaith pwnc byddant yn cefnogi eu gilydd i ddilysu a safoni eu prosesau.
- 3.6. **Y Staff addysgu a chefnogi** fydd yn gyfrifol (lle bo'n briodol) am sicrhau ansawdd y profiadau a chyfluoedd i'r holl ddysgwyr gael mynediad teg at amodau cwblhau asesiadau sydd yn gydnaws â holl egwyddorion Polisi Asesiadau Di-arholiad YSTJ. Gan gydnabod yr amgylchiadau presennol, bydd staff yn bennaf gyfrifol am sicrhau i'r gorau o'u gallu bod pob dysgwr yn derbyn Graddau a Bennir gan Ganolfannau sydd adlewyrchiad teg, dilysu a dibynadwy o'r dystiolaeth a aseswyd sydd ar gael. Bydd pob un yn rhan o brosesau yn eu cyfadrannau, dan arweiniad, i storio'r holl dystiolaeth yn ddiogel a chwblhau'n glir a manwl y Cofnodion Penderfyniadau Dysgwyr. Byddant yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl gofnodion a thystiolaeth ar gael ar gyfer unrhyw adolygiadau mewnol a/neu apeliadau gan ddysgwyr.
- 3.7. Bydd yr holl weithredoedd gweinyddu yn gyfrifoldeb ar y **Swyddog Arholiadau**. Bydd yn cwblhau cofrestrïadau'r pynciau yn amserol ac yn gywir. Pan fydd gwybodaeth allweddol yn cael ei anfon gan y bwrdd arholi CBAC neu gan Gymwysterau Cymru bydd yn sicrhau eu bod yn cael ei raeadru'n effeithiol yn brydlon i'r staff priodol. Bydd yn cymryd rhan allweddol yn cefnogi'r holl brosesau lle mae hynny'n briodol a gweinyddu'r prosesau apeliadau mewnol a gwneud yn siwr bod dogfennau a thystiolaeth ar gael.

4. Cynlluniau asesu pynciau

- 4.1. Yn ystod yr wythnos yn cychwyn y 15fed o Fawrth bydd CBAC yn cyhoeddi eu [\[Fframweithiau Asesu Cymwysterau\]](#) terfynol i ganolfannau fydd yn cynnwys arweiniad ar bwysoliad, mathau o dystiolaeth, dod i farn ar radd.
- 4.2. Drwy rwydweithiau pwnc sirol, dan arweiniad CAMU, mae athrawon pwnc eisioes yn cydweithio i drafod gweithdrefnau a chysondeb mewn perthynas â'u Cynlluniau Asesu. Yn dilyn y cyhoeddiad uchod bydd y rhwydweithiau yn cadarnhau eu penderfyniadau terfynol er mwyn i bob ysgol ffurfio eu [\[Cynlluniau Asesu\]](#) terfynol gan wneud defnydd o adnoddau enghreifftiol gan CBAC.
- 4.3. Unwaith bydd pob pwnc o fewn eu cyfadrannau wedi cytuno ar eu Cynllun Asesu terfynol bydd Arweinydd y gyfadrann gyfrifol am gymeradwyo'n fewnol, cofnodi penderfyniadau a chyflwyno'r cynlluniau'n swyddogol i'w cyswllt UDA.

- 4.4. Wedi derbyn pob un Cynllun Asesu gan yr holl gyfadrannau bydd yr UDA yn cyfarfod i adolygu a chymeradwyo'r cynlluniau ac yn [\[cofnodi eu penderfyniadau\]](#). Lle fydd angen i bwnc adolygu unrhyw agwedd o'u cynllun bydd cyfle i hynny ddigwydd ac ail gyflwyno i'r UDA am gymeradwyaeth.
- 4.5. Drwy gydweithio bydd UDA yr ysgol a'r Arweinwyr Cyfadrannol yn trafod unrhyw addasiadau angenrheidiol yn ystod y cyfnod gweithredu o ganlyniad i unrhyw newid annisgwyl i'r amgylchiadau oherwydd y pandemig.
- 4.6. Yn unol â'u cyfrifoldebau, bydd yr aelodau perthnasol o'r UDA a'r Arweinwyr Cyfadrannol yn sicrhau ansawdd a gweithrediad cyson y cynlluniau fel y disgrifir yn Adran 7 isod.

5. Asesiadau wedi'u dyfeisio gan yr ysgol

- 5.1. Lle mae'r holl ffynonellau tystiolaeth yn asesiadau cyflawn a ddarperir gan CBAC bydd Cynllun Asesu'r pwnc yn nodi hynny a ni fydd angen gwneud unrhyw addasiadau i'r dulliau gweithredu os ydynt yn cydfynd â'r gofynion gweithredu yn y [\[Polisi Asesiadau Di-arholiad\]](#).
- 5.2. Lle mae pwnc yn dewis gwneud mân newidiadau i ddeunyddiau asesu parod CBAC bydd hynny wedi'i drafod a'i gymeradwyo drwy'r trafodaethau am y Cynlluniau Asesu. Disgwylir i bob addasiad fod yn gyson gyda gofynion [\[Canllaw Creu Asesiadau Canolfannau CBAC\]](#) a bydd o staff sydd yn addasu wedi derbyn hyfforddiant drwy raglen hyfforddi arlein CBAC ac yn gyson â'r seiliau asesiadau a chreu asesiadau sydd hefyd ar wefan CBAC.
- 5.3. Ni fydd y pynciau yn Ysgol Syr Thomas Jones fel mae pethau'n sefyll yn dyfeisio asesiadau cwbl o'r newydd heb iddynt fod wedi'u seilio mewn unrhyw ffordd ar ddeunyddiau CBAC er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch.

6. Darparu asesiadau

- 6.1. Disgwylir i bob pwnc ddarparu gwybodaeth clir ymlaen llaw ar sail [\[llinell amser asesu pynciol\]](#) fel atodiad i'w Cynllun Asesu.
- 6.2. Bydd unrhyw asesiadau newydd sydd yn rhan o'r sail dystiolaeth i bennu gradd ac yn rhan o'r Cynllun Asesu Pwnc yn cael ei gyflwyno yn dilyn yr un amodau ag unrhyw Asesiad Di-arholiad lle mae hynny'n briodol ac yn bosib.
- 6.3. Disgwylir i bob aelod o staff gydweithio i sicrhau'r amodau gorau posib o fewn yr ystafell ddosbarth i fyfyrwyr lwyddo a chyflwyno tystiolaeth sydd yn adlewyrchiad teg o'u gallu.
- 6.4. Yr ystafell ddosbarth arferol fydd yr ardal asesu a'r athro sydd yn gyfrifol am osodiad y dosbarth dan arweiniad iechyd a diogelwch gan UDA yr ysgol a disgwylir i amodau'r [\[Asesiad Risg Covid v11\]](#) fod yn gadarn yn eu lle. Iechyd a Diogelwch fydd y sail bwysicaf i'r amodau cyflwyno.
- 6.5. Mewn achos lle mae tarfu drwy Cofid ar allu'r ysgol i wireddu'r llinell amser yn 6.1 bydd yr ysgol yn rhoi arweiniad pellach i'r Arweinwyr Cyfadrannol i addasu i drefniadau o bell. Yn yr achos hwn bydd rhaid i asesiadau gael eu cyflwyno a'u rheoli dan yr amodau tecaf a gorau posib drwy'r platform Microsoft Teams.
- 6.6. Bydd yr holl wybodaeth am hyd a gofynion yr asesiadau sydd yn ffurfio'r sail dystiolaeth yn y Cynllun Asesu Pwnc.
- 6.7. Dylai'r gyfadrannau yn eu cyd-destun ystyried a gwrando ar unrhyw adborth gan fyfyrwyr yn ystod y cyfnod rhag ofn bod angen addasu'r amodau mewn unrhyw ffordd os oes awgrym y gallent fod yn well ac yn fwy teg.

- 6.8. Yn unol â'r [Polisi Trefniadau Mynediad Arholiadau] bydd gan pob dysgwr sydd yn gymwys yr hawl i'r addasiadau mynediad priodol yn union fel y byddant dan amgylchiadau arferol ond gyda sylw penodol yn cael ei roi i wneud hynny'n ddiogel dan amodau Asesiad Risg Cofid v11. Byddwn yn cadw'r cofnodion yn y drefn arferol.
- 6.9. Yr athro unigol sydd yn gyfrifol drwy'r broses am sicrhau bod y dysgwyr i gyd yn derbyn cyfle cyfartal, heb ragfarn a gan osgoi unrhyw duedd anymwybodol wrth sicrhau dilysrwydd eu gwaith.
- 6.10. Dylai pob athro drwy'r broses sicrhau eu bod yn cadarnhau dilysrwydd gwaith y dysgwyr yn gyson a chofnodi unrhyw benderfyniadau fel rhan o'r broses dyfarnu.
- 6.11. Lle mae cysylltiadau teulu neu ffrindiau rhwng staff a dysgwyr dylai'r staff hynny [ddatgan y gwrthdaro buddiannau]. Cyfrifoldeb yr Arweinydd Cyfadran fydd sicrhau trefniadau mewnol er mwyn sicrhau bod yr asesu'n gyson ac yn deg a gellid ystyried opsiynau gwahanol fel asesu'r tasgau'n ddi-enw neu farcio gan gydweithiwr.
- 6.12. Bydd unrhyw gamymddwyn bwriadol neu anfwriadol gan ddysgwr neu staff yn ddarostyngiedig i'r [Polisi a Gweithdrefnau Camymddwyn a Chamweinyddu] arferol.
- 6.13. Caiff holl dystiolaeth asesu dysgwyr, y [Cofnod Penderfyniadau Dysgwr] ac unrhyw gofnodion perthnasol sydd yn ymwneud â'r broses asesu eleni eu cadw'n ddiogel dan glo gan Arweinydd y Gyfadran hyd nes y gofynnir amdanynt. Hyn yn unol â'r trefniadau arferol dan y Polisi Asesiadau Di-arholiad.

7. Sicrhau ansawdd penderfyniadau asesu a graddio

- 7.1. Yn unol â'n [Polisi Sicrhau Ansawdd] bydd pob penderfyniad ar raddau a bennir gan yr ysgol eleni wedi'u seilio ar yr un egwyddorion.
- 7.2. Fel yr amlinellir yn Adran 6 bydd athrawon yn cydweithio dan arweiniad eu Harweinwyr Cyfadranol i sicrhau eu bod yn ymddwyn yn ddiduedd ac yn pennu graddau eleni ar sail tystiolaeth gadarn.
- 7.3. Drwy'r broses disgwylir y bydd athrawon yn cofnodi unrhyw drafodaethau mewnol wrth iddynt gyd safoni gwaith ei gilydd a chytuno ar raddau ac unrhyw addasiadau.
- 7.4. Fel rhan o'r gwaith ysgol > ysgol bydd cydweithwyr ar draws y pynciau yn cydweithio i gefnogi barnau a dilysu graddau. Gall hyn ddigwydd yn anffurfiol drwy gydol y cyfnod cynnal asesiadau a/neu ar y diwedd.
- 7.5. Fel rhan o brosesau dilysu mewnol bydd yr UDA yn cynnal trafodaethau gyda'r Arweinwyr Cyfadran er mwyn adolygu'r gweithdrefnau, y dystiolaeth, y penderfyniadau a'r proffil graddau.
- 7.6. Fel rhan o'r broses fewnol disgwylir y bydd ystyriaeth yn cael ei roi wrth adolygu tystiolaeth i drawsoriad o ddysgwyr gwahanol er mwyn sicrhau bod dysgwyr gyda nodweddion gwarchodedig penodol yn cael eu trin yn gyfartal.
- 7.7. Ar ddiwedd y broses bydd Uwch Arweinwyr ysgolion uwchradd Môn, drwy CAMU, yn cefnogi ei gilydd i gwblhau'r broses ddilysu terfynol fel bod gan bob ysgol llawn hyder yn y graddau terfynol.
- 7.8. Yn unol â'r [Polisi Cydraddoldeb], sydd yn nodi hawliau pob unigolion i degwch, ac yn unol â [Chôd Ymarfer Proffesiynol Athrawon] disgwylir i bawb sydd yn rhan o'r broses weithredu'n deg ac yn gyson bob amser.
- 7.9. Lle gwelir yr angen i adolygu'r marcio neu farn athro ar radd neu raddau cyfrifoldeb yr Arweinydd Cyfadran fydd cynnal y drafodaeth, sicrhau'r addasiadau angenrheidiol a chofnodi gyda'r sail a

rhesymeg. Gall hyn ddigwydd ar unrhyw bwynt yn y broses wrth weithredu'r [\[Siart Llif\]](#), boed hynny'n rhan o'r dilysu mewnol neu ysgol > ysgol.

- 7.10. Yn unol â [\[Chanllawiau Graddio CBAC\]](#) byddwn yn ystyried y proffiliau graddau a phynciau yn erbyn gwybodaeth yr ysgol am berfformiad blynyddoedd blaenorol lle mae hynny'n briodol. Yn ogystal, disgwylir y bydd cyfadrannau, dan arweiniad yr UDA, yn sicrhau bod graddau terfynol pwnc yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r wybodaeth fewnol am berfformiad hanesyddol y cohort a'r wybodaeth fewnol ar raddau targed a rhagfynegiadau FFT.
- 7.11. Fel rhan o'u dyletswyddau fel canolfan bydd yr ysgol yn dilyn Prosesau Sicrhau Ansawdd Allanol CBAC fel y nodir yn y [\[Siart Llif\]](#).
- 7.12. Bydd staff sydd yn rhan o'r prosesau asesu yn dilyn rhaglen hyfforddiant CBAC ar y meysydd allweddol.
- 7.13. Gan ddiweddarau ein [\[Hysbysiad Preifatrwydd\]](#) yn unol â gofynion diweddaraf GDPR bydd yr ysgol yn ymdrin â data a gwybodaeth dysgwyr mewn ffordd diogel a phriodol.

8. Cyfathrebu â dysgwyr a rhieni/gofalwyr

- 8.1. Unwaith bydd yr ysgol a'r bartneriaeth ysgolion (CAMU) wedi cadarnhau'r holl brosesau terfynol a derbyn cymeradwyaeth o'r polisi hwn gan CBAC byddwn yn cyfathrebu'r wybodaeth berthnasol i ddysgwyr a rhieni gan gynnwys:
 - Y Polisi Asesu a Sicrhau Ansawdd
 - Cynlluniau Asesu Pynciol
 - Trosolwg o'r Cynlluniau Asesu ar draws y pynciau
 - Y Llinell Amser
 - Gwybodaeth am y Cofnod Penderfyniadau Dysgwyr
 - Gwybodaeth am y broses apeliadau

9. Adolygiadau a chwynion mewnol

- 9.1. Yn unol â'r [\[Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau Cymeradwy\]](#) gan y JCQ bydd unrhyw gwynion am y broses eleni yn cael ei drin dan amodau'r [\[Polisi Cwynion\]](#) fel sydd yn arferol.
- 9.2. Mae'r ysgol fel canolfan yn ymrwymedig i'r [\[Polisi Apeliadau CBAC\]](#) a [\[Chanllawiau Trefniadau Asesu Amgen Cymwysterau Cymru\]](#) a byddwn yn eu gweithredu'n unol â'r gofynion.

Dogfennau perthnasol:

Cymywysterau Cymru (4/3/21 v2.0) *Canllawiau am drefniadau amgen ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch sydd wedi'u cymeradwyo*

CBAC (Mawrth 2021) *Canllaw i bolisi canolfannau ar brosesau asesu a sicrhau ansawdd*

CBAC (Mawrth 2021) *Siart Llif Proses Sicrhau Ansawdd Allanol CBAC Haf 2021*

CBAC (Mawrth 2021) *Llinell Amser i Ganolfannau*

CAMU Môn (Gwanwyn 2021) *Siart Llif a llinell amser Trefniadau Graddau a Bennir gan Ganolfan*